

# Cylchlythyr mis Tachwedd
# Tyfu Canolbarth Cymru

**Diweddariad mis Tachwedd 2022**

Mae ein cylchlythyr wedi bod yn mynd am 5 mis, a bob mis rydym wedi bod yn cyflwyno amryw dimau Tyfu Canolbarth Cymru a'r gwaith gwych y mae pob un ohonynt yn ei gyflawni er mwyn cynrychioli buddiannau'r rhanbarth a'i flaenoriaethau o ran gwella ein heconomi leol.

Y mis hwn, rydym am edrych yn fanylach ar Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC), eich atgoffa am y ddarpariaeth o ran trafnidiaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, a rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau newydd sydd ar y gorwel.

Erbyn hyn, y llythyr newyddion hwn yw ein dull rheolaidd o gyfathrebu â'n rhanddeiliaid/aelodau, a byddwn bob amser yn ystyried ffyrdd o wella'r modd yr ydym yn rhannu ein newyddion. Felly, os oes gennych unrhyw adborth, unrhyw sylwadau neu unrhyw ddeunydd perthnasol i'w gynnwys yma, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

**Yn helpu i dyfu cyfleoedd yn y canolbarth,**

Tîm Tyfu Canolbarth Cymru




*1 - RET - Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru*

## Ffaith y Mis

Yn ystod yr 1840au a'r 1850au, gwelwyd peth wmbredd o reilffyrdd yn cael eu hadeiladu ar draws y wlad wrth i ddynion busnes sylweddoli ei bod yn bosibl iddynt wneud ffortiwn drwy'r rheilffyrdd.

Yr hyn a ddaeth â'r rheilffordd drwy Sir Faesyfed, ar y pryd, oedd yr awydd i gysylltu porthladd Aberdaugleddau â dinasoedd a ffatrïoedd canolbarth a gogledd Lloegr.

Cafodd Cwmni Rheilffordd Trefyclo ei ffurfio gan dirfeddianwyr a dynion busnes lleol er mwyn adeiladu rheilffordd o Craven Arms i'r dref. Dechreuodd y gwaith ym mis Awst 1858 a chyrhaeddodd y rheilffordd Drefyclo ym mis Mawrth 1861.

Mae gorsaf Trefyclo yr ochr arall i afon Teme yn y dref ac mae yn Sir Amwythig yn Lloegr mewn gwirionedd, fel y gwelwch o'r map hwn yn 1865 (y llinell ddotiog yw'r ffin â Lloegr).

Heddiw, mae gorsaf reilffordd Trefyclo yn dal ar agor ac mae'n rhan o reilffordd Lein Calon Cymru.




*2 - Ffynhonnell: Victorian Powys, Archifau Powys a map o'r Arolwg Ordnans*

**Yng ngweddill y llythyr newyddion hwn:**

- Dysgu am bartneriaeth Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC)
- Beth sy'n digwydd yn awr o ran trafnidiaeth yn y canolbarth
- Strategaeth drafnidiaeth newydd Llywodraeth Cymru


# Dysgu am bartneriaeth Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC)

Mae TraCC yn cyfuno swyddogaethau tri awdurdod lleol o ran priffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus, sef Powys, Ceredigion ac ardal Meirionnydd yng Ngwynedd, a hynny er mwyn darparu atebion rhanbarthol penodol i hwyluso trafnidiaeth integredig leol ac er mwyn datblygu polisi a rhaglenni.

Mae ardal TraCC yn cynnwys canol Cymru, o'r ffin â Lloegr yn y dwyrain i arfordir Cymru yn y gorllewin, ac mae hefyd yn cynnwys rhannau o Barciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Eryri.

Mae'r bartneriaeth hon ym maes trafnidiaeth wedi bod yn cydweithio ers 2003, gan adeiladu ar y bartneriaeth lwyddiannus a sefydlwyd yn 1996, sef Partneriaeth Canolbarth Cymru.

Mae TraCC yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i weithredu ei pholisïau cenedlaethol ynghylch trafnidiaeth integredig ar lefel ranbarthol, ac mae'n nodi blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol ar y cyd â phartneriaid.



Gweledigaeth TraCC yw:

*"Cynllunio ar gyfer, a darparu mewn partneriaeth, system drafnidiaeth integredig yn rhanbarth TraCC sy'n hwyluso datblygiad economaidd, yn sicrhau mynediad at yr holl wasanaethau a chyfleoedd, yn cynnal ac yn gwella ansawdd bywyd cymunedol ac yn parchu'r amgylchedd."*

*Gyda'n gilydd, gwnaethom gyflwyno ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol cyntaf yn 2008 a chyflwyno* Cynllun Trafnidiaeth Lleol Canolbarth Cymru *wedyn yn 2015.*

# Beth sy'n digwydd yn awr o ran trafnidiaeth yn y canolbarth



Mae gwasanaeth cludo nwyddau masnachol wedi ailddechrau ar Reilffordd y Cambrian am y tro cyntaf ers 2005. Mae'n gyfle i ddarparu cludiant mwy glân a gwyrdd er mwyn tynnu cannoedd o lorïau mawr oddi ar ein ffyrdd gwledig.

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yma.

Y llun drwy garedigrwydd Colas Rail a Chymdeithas Teithwyr Rheilffordd Amwythig i Aberystwyth.

## TrawsCymru yn rhan o Trafnidiaeth Cymru yn awr




**Dau wasanaeth ond un tocyn**




Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymuno â TrawsCymru i'ch galluogi i deithio o Aberystwyth i fannau yn y de gan ddefnyddio un tocyn yn unig.

Yn lle gorfod defnyddio gwahanol apiau, gwefannau a gwerthwyr i brynu tocynnau trên a bws ar wahân, gall teithwyr brynu un tocyn yn awr a fydd yn eu galluogi i deithio ar wasanaethau rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru a bysiau T1 a T5 TrawsCymru.

Er enghraifft, os ydych yn teithio ar wasanaethau rheilffyrdd o fannau yn y de, mae angen i chi ddod oddi ar y trên yng Nghaerfyrddin ac ymuno â gwasanaeth T1 TrawsCymru i barhau â'ch taith. Os ydych yn teithio o Aberystwyth, Llanbedr Pont Steffan neu Aberaeron, rydych yn dechrau eich taith ar un o wasanaethau TrawsCymru ac yn ymuno â'r gwasanaeth rheilffordd yng Nghaerfyrddin i barhau â'ch taith i'r man yr ydych am fynd iddo.

**Bysiau trydan newydd i Aberystwyth**

Cyn bo hir, bydd Trafnidiaeth Cymru yn cychwyn ymarfer tendro er mwyn dod o hyd i weithredwr i ddarparu gwasanaeth T1 allweddol TrawsCymru sy'n cysylltu Aberystwyth, Llanbedr Pont Steffan a Chaerfyrddin â'i gilydd – gwasanaeth y mae disgwyl iddo gychwyn yn gynnar yn 2023 gydag wyth bws newydd a fydd yn rhedeg ar drydan yn unig.

Yn rhan o'r gwaith o wella'r rhwydwaith, mae Trafnidiaeth Cymru hefyd yn cydweithio'n agos â'r awdurdodau lleol i archwilio gwelliannau pellach i'r cynllun fflecsi Bwcabus poblogaidd, sy'n wasanaeth ar alw ar gyfer ardaloedd gwledig ac sy'n cysylltu â gwasanaeth T1 mewn canolfannau allweddol.

At hynny, bydd teithwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth T1 gwell yn elwa o gael cyfleusterau aros mwy deniadol wrth y prif arosfannau bysiau ar hyd y llwybr, sydd wedi'u cyflwyno gan Gyngor Sir Ceredigion yn ddiweddar gan ddefnyddio cyllid grant a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.




*3 - Bws trydan newydd*

## Fflecsi Bwcabus




Mae fflecsi Bwcabus yn wasanaeth bws lleol hollol hygyrch sy'n gweithredu chwe diwrnod yr wythnos o 7am i 7pm mewn ardal benodol, ac mae'n darparu cymysgedd o deithiau y gellir eu harchebu a gwasanaethau sy'n dilyn llwybrau sefydlog.

Bwriad y gwasanaeth yw helpu pobl i deithio'n lleol a chysylltu â gwasanaethau bws ar y prif lwybrau (T1, T1C, T5, 460). I ddefnyddio'r gwasanaeth:

**1. Lawrlwythwch ap fflecsi neu ffoniwch ni:** crëwch gyfrif am ddim a dewiswch eich mannau casglu a gollwng, neu ffoniwch ganolfan alwadau fflecsi ar 0300 234 0300 a bydd ein staff dwyieithog cyfeillgar wrth law i'ch helpu i archebu teithiau ac i ateb eich ymholiadau

**2. Archebwch eich taith:** Dewiswch eich mannau casglu a gollwng yn ogystal â'ch dyddiad teithio a'ch amserau teithio. Byddwch yn cael cadarnhad a diweddariadau byw drwy ein ap

**3. Ewch ar eich taith:** Ewch i'ch man casglu mewn da bryd a pharatowch i ddechrau eich taith gyda ni

Archebwch eich taith o leiaf 90 munud cyn bod angen i chi deithio – gall teithwyr archebu taith hyd at fis ymlaen llaw a gellir gwneud teithiau rheolaidd hefyd.

Nid oes angen cofrestru nac archebu ymlaen llaw i deithio ar hyd y llwybrau sefydlog. Ewch i'r arhosfan a daliwch y bws fel y byddech yn dal gwasanaeth bws rheolaidd.

Bydd unrhyw un sydd â cherdyn teithio rhatach Cymru yn cael teithio am ddim, a chaiff fyngherdynteithio ei dderbyn hefyd.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i [dudalen hafan Bwcabus](dudalen hafan Bwcabus).




*4 - Gwasanaeth Fflecsi Bwcabus*

## Trafnidiaeth Cymru yn bwriadu cyflwyno trenau newydd ar reilffyrdd y Cambrian

Yn dilyn gwaith treialu a gyflawnwyd yn ystod yr haf ar hyd rheilffyrdd y Cambrian, mae'r unedau diesel Dosbarth 197 newydd gan CAF yn dechrau cael eu hanfon i reilffyrdd y Cambrian ac yn dechrau cael eu defnyddio arnynt. Yn dilyn y gwaith treialu, ac ar ôl hyfforddi criwiau a diweddaru'r seilwaith a'r depo ym Machynlleth yn ôl y gofyn, bwriad Trafnidiaeth Cymru yw cael y trenau i ddechrau rhedeg yn 2023.



*5 - Trenau newydd ar rheilffyrdd y Cambrian*

## Adfer Traphont Abermaw

Mae Network Rail yn gwneud gwelliannau i draphont eiconig Abermaw; dyma'r prosiect adfer mwyaf yn hanes y draphont. Bydd y gwelliannau sy'n costio £30 miliwn yn gwarchod y bont boblogaidd am genedlaethau ac yn ei galluogi i barhau i edrych ar ei gorau.

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yma.



*6 - Abermaw*

## Prosiect Llywodraeth Cymru - A487: Pont Ddyfi Newydd



*7 - Prosiect Pont Ddyfi*

Ers gwanwyn 2021, mae contractwyr wedi bod yn adeiladu'r bont Ddyfi newydd ym Machynlleth. Roedd angen pont newydd oherwydd bod y ffordd yn cau'n aml o ganlyniad i lifogydd mynych, sy'n golygu bod traffig yn gallu cael ei ddargyfeirio am hyd at 30 milltir. Disgwylir y bydd y prosiect hwn sy'n costio £46 miliwn yn cael ei gwblhau yn 2023, a bydd yn sicrhau cydnerthedd yn y dyfodol ar Goridor Arfordirol Strategol Gorllewin Cymru sy'n cysylltu'r gogledd a'r canolbarth.

Bydd cam olaf y gwaith adfer ar y bont reilffordd restredig Gradd I yn Abermaw, sy'n 154 oed, yn dechrau ar 15 Tachwedd. Bydd y cam hwnnw'n gweithio ar elfennau metalig y bont. Bydd y buddsoddiad hwn sy'n werth £30 miliwn yn Rheilffordd Arfordir y Cambrian yn sicrhau ei dyfodol fel coridor trafnidiaeth strategol rhwng y gogledd a'r canolbarth. Yn ogystal â darparu ar gyfer y rheilffordd, mae'r bont hefyd yn darparu ar gyfer llwybr beicio Mawddach a Llwybr Arfordir Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yma.

## Strategaeth drafnidiaeth newydd Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei strategaeth drafnidiaeth newydd. Felly, byddwn yn adolygu cynlluniau TraCC ac yn cyflwyno Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol newydd a pholisïau newydd yn 2023/24 er mwyn helpu Cyd-bwyllgor Corfforedig newydd y Canolbarth a rhoi arweiniad iddo.



## Cael y wybodaeth ddiweddaraf

Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am newyddion Tyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau o ran gweithgarwch a'r sefydliadau yr ydym yn eu cynorthwyo drwy ddilyn ein tudalennau ar Twitter a LinkedIn:

https://twitter.com/growingmidwales

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

Rydym yn awyddus i gyrraedd cymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws y canolbarth. Gallwch wneud hynny'n bosibl drwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad: Fel un o randdeiliaid Tyfu Canolbarth Cymru, rydych yn cael y negeseuon ebost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth â chi'n rheolaidd. Os ydych am roi'r gorau i gael y negeseuon hyn, gallwch roi gwybod i ni drwy anfon ebost i growingmidwales@ceredigion.gov.uk.

Tyfu Canolbarth Cymru
Growing Mid Wales

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds